Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd ar Nos Lun 25ain o Orffennaf, 2022 am 7.30 y.h. – 8.00 y.h. yn Rhithiol dros Zoom.
Minutes of Trawsgoed Community Council held on Monday 25th July, 2022 at 7.30 p.m. – 8.00 p.m. held Virtually over Zoom

**Presennol/Present**: Cyng. C. Lloyd-Morgan (yn y Gadair/Chair of Meeting)
Cyng./Cllr. A. Davies, Cyng./Cllr. P. Davies, Cyng./Cllr. A. Evans (7.55 p.m.)
Cyng. A. Richards.

**Ymddiheuriadau / Apologies**: Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. M. Davies, Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. E. Lewis, Cyng./Cllr. I. Leyshon;
Cynghorydd Sir/County Councillor Meirion Davies

82. **Materion Personol**
Croesawyd y Cyng. Aled Richards i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor Bro.

**Pesonal Matters**
A warm welcome was extended to Cllr. Aled Richards to his first meeting.

83. **Datgelu Buddiannau Personol**
Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau.

**Disclosure of Personal Interest**
Members were reminded to declare an interest when discussing items.

84. **Asesiad Risg ac Asedau**
Nid oedd materion yn codi o ran yr Asedau.

**Risk and Asset Assessment**
There were no matters arising regarding Assets.

85. **Cofnodion Cyfarfod Diwethaf**
Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 27ain Mehefin, 2022. Cynigiwyd cywirdeb gan Cyng. A. Davies ac eiliwyd gan Cyng. P Davies.

**Minutes of the Last Meeting**
The minutes of the last meeting, 27th June, 2022, were confirmed and accepted. Proposed by Cllr. A. Davies and seconded by Cllr. P. Davies

86. **Materion yn codi o'r Cofnodion**

**Matters arising from the Minutes:**

87. Y Clerc i ddilyn lan gyda'r materion isod sy'n parhau angen sylw gan Gyngor Sir Ceredigion:

The Clerk to follow up on the outstanding matters reported to Ceredigion County Council:

88. Y gwaith o baentio llinellau gwyn ar y ffyrdd yn Llanafan wedi dechrau ond angen cwblhau a'r sefyllfa'n parhau o amgylch ardal Trawsgoed hefyd.

The painting of White lines on the roads has been started at Llanafan but requires completion and the situation remains around Crosswood as well.

89. Sefyllfa Dwr yn cronni ar ffordd ger y Gors yn parhau.

Flooding on the road near New Cross is continuing.

90. Gwteri'n parhau angen glanhau yn yr ardal, bydd angen cadw llygad ar sefyllfaoedd pan geir tywydd garw eto.

Overflowing gutters continue to be a problem, will need to monitor the situation when it rains again.

91. Ffordd heibio Capel Carmel, Cnwch Coch.
Y Glanhawr ffordd wedi ymweld a'r ffordd.

Road towards Carmel Chapel, Cnwch Coch
The sweeper has been to clean the road.

92 Yr angen hefyd am y glanhawr ffordd ar y ffordd o'r hen Ysgol Llanafan tuag at y B4340.

Also the sweeper is needed on the road from the Old School, Llanafan towards the B4340.

93. Yr angen yn parhau am arwynebedd newydd ar:
y ffordd heibio Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn;
y ffordd o'r hen Ysgol Llanafan a heibio Maes Chwarae Maes y Felin;
y ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant.

The need continues for resurfacing:
the road adjoining the School at Llanfihangel-y-Creuddyn;
road leading from the old School Llanafan towards Maes y Felin Playing Fields;
road from Llanfihangel-y-Creuddyn towards Trisant.

94. Dilyn lan gyda'r Cyngor Sir am dorri nol dwy shetin preifat sy'n amharu ar weledydd gyrrwyr rhwng Brynafan a Llanafan.

Contact the County Council of the two private hedges that need cutting back between Brynafan and Llanafan.

95. Sefyllfa'r ffordd yn rhoi ger Royal Oak, Llanafan yn parhau.
Ymateb gan Elin Jones, A.C. yn nodi bod wedi bod mewn cysylltiad eisoes gyda'r Cyngor Sir am y sefyllfa.
Ymateb hefyd gan Gyngor Sir Ceredigion yn nodi y gosodwyd reolaeth traffig dros dro am resymau diogelwch ffyrdd i gadw unrhyw draffig i ffwrdd o'r darn ffordd sy'n rhoi. Nodwyd fod y gwaith adnewyddu yn cael ei flaenoriaethu ar hyn o bryd yn erbyn nifer o gynlluniau priffyrdd brys tebyg ar draws y Sir ond byddid yn parhau i asesu'r sefyllfa'r ffordd yn achlysurol.

Road subsiding near Royal Oak, Llanafan continues needing attention.
Response from Elin Jones, A.M. noting that she has previously been in contact with Ceredigion County Council regarding the situation.
Also a response from Ceredigion County Council noting that temporary traffic management has been placed for road safety reasons to keep any traffic away from the failing edge. The scheme is currently being prioritised against a number of urgent highway schemes of a similar nature but the situation will be monitored periodically.

96. Dim wedi gwneud i osgoi Llifogydd ar y ffordd ger Dolgelynen

No action taken to avoid flooding on the road near Dolgelynen.

97. Problem tyfiant yn Nantyrhaidd yn parhau.

Overgrowth at Nantyrhaidd Stream continues to be a problem.

98. Goleuadau Fflachio tu allan i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn yn goleuo ar adegau anghywir.

Flashing Lights outside Llanfihangel-y-Creuddyn School lighting at the incorrect times.

99. Torri Tyfiant Ochr Ffyrdd wedi cwblhau.

Cutting of Roadside Growth completed.

100. Arhosir am ymateb wrth yr Adran Gynllunio am natur adeiladau a godir yn y Gors

Awaiting a response from Ceredigion County Council of nature of new buildings at New Cross.

DRAFT

101. **Materion Cyllidol**
-

**Finance**
-

102. **Cyfrifon 2021/2022**

**2021/2022 Accounts**

103. Danfonwyd y Cyfrifon i'r Archwilydd Allanol.

Accounts sent to External Auditor.

104. **Ceisiadau Cynllunio**:

Nid oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

**Planning Applications**

There were no objections to the following applications:

105 A220413 Bontfach, Llanafan, Aberystwyth, SY23 4AX Erection of external decking area and garden room / storage shed.

A220413 Bontfach, Llanafan, Aberystwyth, SY23 4AX Erection of external decking area and garden room / storage shed.

106. A220381 Tafarn y Gors, New Cross, Aberystwyth. Change of use of pub (bar & dining room area) into residential dwelling.

A220381 Tafarn y Gors, New Cross, Aberystwyth. Change of use of pub (bar & dining room area) into residential dwelling.

107. **Gohebiaeth**
-

**Correspondence**
-

108. **Unrhyw Fater Arall**

**Any Other Business**

109. Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion i gyfeirio sylwadau aelod o'r cyhoedd at Ŵyl Tân yn y Mynydd, Cnwch Coch ar ddiwedd mis Mai ble roedd cerddoriaeth uchel i'w glywed o'r Ŵyl drwy'r nos ar un o'r nosweithiau.

The Clerk to contact Ceredigion County Council referring to concerns of a member of the public that loud music could be heard throughout one of the nights during the recent Fire in the Mountain Festival at Cnwch Coch end of May.

110. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nos Lun 5ed o Fedi, 2022 am 7.30y.h.yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn

**DATE OF NEXT MEETING**

Monday 5th September, 2022 7.30p.m. at Llanfihangel-y-Creuddyn Primary School.

DRAFT